**Maniffesto Annibynnol i Ynys Môn**

'Rydym yn wynebu amser llwm dros gyfnod y Cyngor nesaf. Mae'n rhaid gwneud arbedion o £2.85 miliwn blwyddyn yma a thoriadau o £10 miliwn dros y ddwy flynedd wedyn. Bydd llai o arian, flwyddyn ar flwyddyn, i ddarparu gwasanaethau angenrheidiol i bobl Môn.

Bydd y sefyllfa economaidd anodd yn rhoi pwysau mawr ar unigolion a theuluoedd oherwydd codiadau cyflog isel, toriadau mewn budd daliadau a'r bygythiad o ddiweithdra. Gan ddechrau o'r sefyllfa galed yma bwriad y cynghorwyr sy'n tanysgrifio i'r maniffesto yma yw:

TRETH CYNGOR - Ceisio i gadw Ynys Môn yn y chwarter isaf o gyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru. Rydym ar hyn o bryd y chweched isaf. Mae angen rheoli cyllidol, gosod a monitro cyllidebau, mewn dull cadarn a phroffesiynol. Mae cynghorwyr annibynnol, ers 2008, wedi gofyn i'r Cyngor adolygu eu cyllidebau o'r newydd (gosod cyllidebau ar sail sero). Mae'r Cyngor wedi dweud yn gyson nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i wneud hyn. Rydym yn credu bod rhaid i gyllideb pob adran gael ei adolygu yn rheolaidd a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i wneud hyn.

ADDYSG - Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg i foderneiddio addysg ar yr ynys i'r safonau uchaf. Ar hyn o bryd mae bwrdd adfer yn goruchwylio'r adran yn dilyn adroddiad beirniadol gan ESTYN. Byddwn yn sicrhau bod y cynllun gweithredu adfer yn cael ei gadw ar y trywydd iawn drwy ei fonitro'n rheolaidd yn y pwyllgor craffu perthnasol.

Ochr yn ochr â gwireddu'r cynllun gweithredu byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg a'r cyhoedd i gynhyrchu strategaeth foderneiddio addysg y gellir ei gyflwyno'n llwyddiannus. Bydd y broses o wireddu'r strategaeth yn cymryd hyd at 15 mlynedd i'w gyflwyno'n llawn ond heb y strategaeth yma (nad yw'n bodoli ar hyn o bryd) rydym yn mynd i unman.

Mae'r gyllideb ar gyfer addysg yn 2013/14 yn £ 47,680,000, mae hyn yn 37% o gyllideb y Cyngor, gwariant mwyaf y Cyngor. Oherwydd bod darparu addysg o'r radd flaenaf i'n plant mor bwysig, gwella'r gwasanaeth yma fydd ein blaenoriaeth uchaf.

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - Mae £ 30 miliwn yn cael ei wario ar y gwasanaeth bob blwyddyn. Mae Cyfarwyddwraig newydd yn rhedeg yr adran gyda'r dasg o drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae pwysau ariannol yn cynyddu yn gyson ar yr adran hon wrth i boblogaeth yr Ynys heneiddio. Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau trawsnewidiol arfaethedig yn lleihau'r gofal a ddarperir ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau mewnbwn pobl Môn i'r newidiadau a bod y Cyngor yn cymryd eu safbwynt o ddifrif.

PRIFFYRDD – Mae'r gaeafau difrifol dros y ddwy flynedd olaf wedi achosi difrod difrifol i gyflwr ein rhwydwaith priffyrdd. Eleni, mae'r gyllideb Priffyrdd wedi ei dorri ac arian wedi ei roi mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Gan fod cludiant yn hanfodol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Ynys Môn mae'n angenrheidiol ein bod yn gweithio gyda'r Adran Briffyrdd ar gynllun atgyweirio a chynnal a chadw y gellir ei gyflawni dros y tymor hir. Byddwn yn sicrhau bod cyllidebau refeniw a chyfalaf digonol mewn lle yn y dyfodol i gynnal ein ffyrdd i safon dderbyniol

SWYDDI A'R ECONOMI - Pwrpas y Cyngor yw rhedeg gwasanaethau cyhoeddus angenrheidiol. Wrth wneud hyn, mae'r Cyngor yn darparu 3,300 o swyddi ac yn talu £74

miliwn mewn cyflogau. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn golygu bod swyddi yn y sector breifat yn brin. Teimlwn, ar hyn o bryd, ei fod yn hanfodol i'r swyddi yma gael eu diogelu. Mae'n ffaith bod yr economi ar hyn o bryd ar yr Ynys yn dibynnu ar y sector cyhoeddus am swyddi. Efallai y byddai creu dau Gyngor yng Ngogledd Cymru yn arbed arian mewn blynyddoedd i ddod ond byddai cynllun o'r fath yn arwain at golli swyddi yn lleol a gwanhau economi fregus. Hyd nes y gall y pleidiau gwleidyddol cenedlaethol wrthdroi'r sefyllfa economaidd wan a darparu swyddi yn y sector preifat byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gynlluniau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol.

Fel rhan o'r rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy'r Cyngor torrwyd y cynllun hyfforddai proffesiynol, rydym yn teimlo fod hyn wedi bod yn gam yn ôl a'i fod wedi arwain at or-ddefnydd o staff asiantaeth gostus. Byddwn yn gweithio i greu swyddi dan hyfforddiant proffesiynol ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol a choleg.

Rydym yn credu, gyda buddsoddiad priodol, bod cyfleoedd i hybu datblygu'r economi ar Ynys Môn ac i ryddhau potensial gweithlu'r ynys. Gyda chefnogaeth y weinyddiaeth annibynnol creuwyd y cynllun Prentis Menai i roi cyfle i bobl ifanc lleol ddatblygu sgiliau ac ennill profiad sydd yn angenrheidiol i symud ymlaen i yrfaoedd mewn swyddi da. Gweledigaeth y weinyddiaeth annibynnol a ddatblygodd y fenter Ynys Ynni, sydd â'r potensial i osod Ynys Môn yn un o'r rhanbarthau mwyaf cystadleuol yn y DU.

Gyda'i gilydd, golygir bod potensial gweld buddsoddiad o £25biliwn o'r tu allan a fydd yn creu oddeutu mil o swyddi o safon uchel ar yr Ynys. Bydd gweinyddiaeth annibynnol yn parhau i frwydro i sicrhau bod y buddsoddiad yma yn dod i Ynys Môn, ac na chaiff ei rannu ar draws Cymru i fodloni gofynion pleidiau gwleidyddol cenedlaethol.

CYNLLUNIO - Mae cynllunio wedi bod yn bwnc llosg ar Ynys Môn ers blynyddoedd. Dros y pedair blynedd diwethaf mae nifer o welliannau wedi eu gwneud, un o'r rhain yw na all Cynghorwyr alw ceisiadau sy'n mynd yn groes i bolisi i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio ac yna ei wrthdroi gyda phleidlais. Mae gweithio i bolisi cynllunio datblygu cadarn yn rhoi cysondeb i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae polisïau presennol y Cyngor yn dyddio'n ôl i 1993 a 1996. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y polisi datblygu lleol rydym yn ei datblygu rŵan yn cael ei gyflwyno ar amser ym mis Ebrill 2016.

CYLLIDEB CYFALAF A'R CYNLLUN CORFFORAETHOL - Y gyllideb cyfalaf yw'r arian a ddefnyddir ar gyfer prosiectau newydd neu brosiectau adnewyddu, y cynllun corfforaethol yw rhestr blaenoriaethau'r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynllun corfforaethol angen bod yn fwy clir a phendant ac yn haws i'w ddeall. Mae angen i'r gyllideb gyfalaf fod yn un strategol tymor hir sy'n sylfaen i gynllun gwella corfforaethol yr Ynys.

Rhaid i'r cynllun ddweud wrth y bobl beth mae'r Cyngor am ei gyflawni, faint o ysgolion newydd bydd yn cael eu hadeiladu, sut bydd gofal oedolion yn cael ei wella a sawl milltir o ffyrdd byddwn yn ei ail wynebu. Mae'n rhaid i'r gyllideb gyfalaf fod yn ei le i wireddu'r cynllun corfforaethol. Byddwn yn sicrhau na fydd y Cyngor fyth eto yn y sefyllfa o fethu â dyrannu £1.2 miliwn a glustnodwyd ar gyfer cartrefi preswyl oherwydd bod y rhaglen yn dal i gael ei adolygu (dyma oedd y sefyllfa yn yr adroddiad diwethaf ar wariant cyfalaf).

DEFNYDD O STAFF ASIANTAETH A CHAFFAEL - Mae'r cynghorwyr annibynnol wedi herio'r Cyngor yn gyson ar y gorddefnydd o staff asiantaeth, yn enwedig yn yr adran Cyllid, lle mae cyfrifwyr asiantaeth sy'n costio ddwywaith mwy na chyfrifwyr y Cyngor wedi cael eu cyflogi am dros dair blynedd. Yr wyf yn amcangyfrif bod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth wedi costio cannoedd o filoedd o bunnoedd. Byddwn yn parhau i herio'r

camddefnydd yma o arian cyhoeddus tan y bydd yn dod i ben. Yn y gorffennol nid yw'r Cyngor wedi gallu adrodd yn gywir ar gost y defnydd o staff asiantaeth gan nad oeddent ar gyflogres y Cyngor na wedi eu cofnodi yn y system bersonél. Gan fod gan y Cyngor system adnoddau dynol newydd bellach, byddwn yn sicrhau bod y defnydd o staff asiantaeth yn cael ei gofnodi yn y system newydd a bod y costau yn cael eu cyhoeddi yn agored a thryloyw.

Mae rheoliadau caffael wedi golygu bod llawer o gontractau a osodwyd gan y Cyngor yn mynd i gwmnïau o du allan i'r Ynys. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd y cytundeb cynnal a chadw tiroedd yr ysgolion. Rydym yn teimlo bod yn rhaid i staff caffael ddatblygu ffyrdd o becynnu cytundebau fel y gall cwmnïau lleol wneud cais ac ennill gwaith a gomisiynwyd gan y Cyngor. Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor er mwyn cynyddu nifer y cytundebau y gellir ei ennill gan gwmnïau lleol.

GWERTHUSO SWYDDI - Yn 1997 fe wnaeth Cytundeb Statws Sengl yr NJC orfodi Cynghorau i roi diwedd ar y gwahaniaethu mewn cyflog yn llywodraeth leol drwy adolygu eu strwythurau cyflogau a graddfeydd er mwyn cyflwyno cyflogau cyfartal. Fe osodwyd amserlen yn 2004 i weithredu cytundeb cyflog NJC drwy gwblhau adolygiadau graddio a'i cyflwyno erbyn 1 Ebrill 2007. Dechreuwyd ar y dasg yma yn Ynys Môn yn 2001; yn anffodus nid yw wedi ei gwblhau. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng cyflogau gweithwyr cyffredin ac uwch reolwyr. Y dyddiad diweddaraf ar gyfer cwblhau gwerthuso swyddi yw 2014. Byddwn yn monitro cynnydd y gwaith yma yn agos hyd y bydd wedi ei gwblhau. Mae gwerthuso swyddi ar y gofrestr risg corfforaethol ddrafft, darn o waith sydd hefyd heb ei gwblhau hyd yn hyn

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ATEBOLRWYDD - Fel y nodwyd uchod, mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn ddogfen bwysig sydd eto i'w chwblhau, er bod archwilwyr allanol wedi bod yn mynnu hyn ers nifer o flynyddoedd. Mae'n rhestr sy'n cofnodi ac yn olrhain y prif risgiau a gwendidau. Yn adroddiad Llywodraethu Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2009 a arweiniodd at ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru fe nodwyd bod fframwaith atebolrwydd y Cyngor yn ddiffygiol. Roedd yr adroddiad yn feirniadol o drefniadau craffu'r Cyngor. Mewn ymateb i hyn cynyddwyd nifer y pwyllgorau craffu o 2 i 5. Mae'r uwch dîm rheoli wedi awgrymu y dylai'r Cyngor newydd ostwng y nifer hwn yn ôl i 2. Bu adroddiad AGGCC beirniadol ar wasanaethau plant yn 2011 ac adroddiad ESTYN ar addysg tra roedd y Cyngor mewn sefyllfa o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfrifoldebau anferth ynghlwm a'r gwaith a wneir gan y Cyngor ac oherwydd y rheswm yma bydd cynghorwyr annibynnol yn sicrhau bod y fframwaith atebolrwydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel bod risgiau a gwendidau yn cael eu trin yn briodol.

HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD - £2.9 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth yma. 2.2% yn unig o'r gyllideb refeniw yw'r swm bychan ond tyngedfennol yma. Dau o amcanion corfforaethol y Cyngor yw: creu Ynys Môn lle mae pobl yn iach ac yn ddiogel a bod yn Ynys lle mae pobl yn cyflawni eu potensial llawn. Rydym yn teimlo bod canolfannau hamdden a llyfrgelloedd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol hyn, yn unol â hynny, byddwn yn diogelu ac yn gwella'r gwasanaethau yma lle bo modd.

LLEIHAU ÔL TROED CARBON - Ym mis Mehefin 2012 argymhellwyd gan y Comisiynwyr bod polisi Ynni a Dŵr Adeiladau'r Cyngor yn cynnwys datganiad clir yn amlinellu ymrwymiad yr Awdurdod i leihau allyriadau carbon o 3% ac ynni a dŵr gan 5% y flwyddyn. Gwnaed datganiad hefyd y byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r cynnydd ar gyflawni'r nodau hyn. Byddwn yn sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi.

MODERNEIDDIO - Mae llawer o brosesau busnes a ddefnyddir gan y Cyngor yn hen ffasiwn ac angen eu moderneiddio. Cwyn gyffredin yw diffyg cysondeb yn yr amser a gymerir i ateb llythyrau a cheisiadau am wasanaeth. Mae gan y mwyafrif o Gynghorau bellach systemau rheoli gwybodaeth cwsmeriaid i fonitro eu perfformiad wrth ymateb i geisiadau gan y cyhoedd. Bydd gwella'r dulliau mae'r Cyngor yn ymdrin â cheisiadau'r cyhoedd yn flaenoriaeth bwysig.

MATERION CYFOES - Addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a rhedeg y gwasanaethau craidd eraill yn effeithlon fydd ein prif flaenoriaethau. Bydd materion cynllunio cyfoes megis tyrbinau gwynt a pheilonau yn codi yn rheolaidd a bydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau arnynt. Byddwn yn gwrando ar ein cymunedau i ddatblygu a chyflwyno polisïau cryf i sicrhau diogelu'r tirlun o strwythurau diwydiannol ac unrhyw strwythur arall a all gael effaith andwyol ar ansawdd weledol tirwedd yr ynys.

Mae'r maniffesto hwn yn un lleol a perthnasol i sefyllfa'r Cyngor heddiw. Mae wedi ei seilio ar fy mhrofiad o fod yn aelod o'r Awdurdod dros y pum mlynedd ddiwethaf. Nid maniffesto generig a ysgrifennwyd gan ymchwilydd parti gwleidyddol mohono.

Ieuan Williams, Benllech